# Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 18 Hydref 2004

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon*

**Leighton Andrews (Rhondda);** A wnaiff y Gweinidog nodi'r holl arian cyhoeddus o gyllidebau Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n mynd i Lyfrgell Genedlaethol Cymru, Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru, Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC ac Opera Cenedlaethol Cymru. (WAQ38644)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth*

**Carl Sargeant (Alun a Glannau Dyfrdwy);** Ers 1999, sawl gwaith y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi rhoi cyfyngiadau cyflymder ar brif ffyrdd gan gynnwys cefnffyrdd yn y Gogledd er mwyn gwella diogelwch. (WAQ38649)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes*

**Carl Sargeant (Alun a Glannau Dyfrdwy);** A allech nodi'r ysgolion yn Sir y Fflint sy'n darparu gwasanaeth dysgu y tu allan i oriau arferol ar gyfer disgyblion a'u cymunedau. (WAQ38650)

**Janet Ryder (Gogledd Cymru);** O gofio bwriad y Gweinidog i gyflwyno rhyw fath o Ffi Ychwanegol yn 2007, a wnaiff ddatgan a fydd y ffi’n berthnasol i'r holl fyfyrwyr fydd yn astudio bryd hynny mewn Addysg Uwch yng Nghymru. (WAQ38651)

**Janet Ryder (Gogledd Cymru);** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi unrhyw gyngor neu ganllawiau y mae wedi'u rhoi i Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru i'w helpu i baratoi eu prosbectysau ar gyfer blwyddyn academaidd 2006, a rhybuddio myfyrwyr y bydd yn rhaid iddynt dalu ffioedd o 2007 ymlaen. (WAQ38652)

**Janet Ryder (Gogledd Cymru);** Sut y mae'r Gweinidog yn bwriadu rhybuddio'r holl fyfyrwyr sy'n ystyried gwneud cais am le mewn Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru yn 2005 y bydd yn rhaid iddynt dalu Ffioedd Ychwanegol o 2007 ymlaen. (WAQ38653)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*

**Sandy Mewies (Delyn);** A yw Llywodraeth Cynulliad Cymru'n ymgynghori â grwpiau sy'n

cynrychioli unigolion sydd ag anableddau dysgu. (WAQ38646)

**Sandy Mewies (Delyn);** A wnaiff y Gweinidog nodi mentrau Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n galluogi pobl sydd ag anableddau dysgu i gael mynediad at y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. (WAQ38647)

**Sandy Mewies (Delyn);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch Adroddiad Mencap 'Treat me right!'. (WAQ38648)

**Sandy Mewies (Delyn);** Pryd yr oedd cyfarfod diwethaf y Gweinidog â sefydliadau sy'n cynrychioli unigolion sydd ag anableddau dysgu. (WAQ38645)